# Polisi Gwrth-fwlio

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ganolog i gynllunio, polisïau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, yn ogystal ag addysgu am hawliau plant, rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas.

# Polisi Gwrth-fwlio Ysgol Gymraeg Pontybrenin

Yn Ysgol Gymraeg Pontybrenin mae gan bob person yr hawl i deimlo'n ddiogel, yn hapus ac wedi'i gynnwys. Felly, mae bwlio o unrhyw fath yn annerbyniol. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall bwlio'i chael ar deimladau disgyblion o werth ac ar eu gwaith ysgol, a bydd cymuned yr ysgol yn hyrwyddo amgylchedd gwrth-fwlio.

**EIN BWRIAD WRTH LUNIO'R POLISI HWN YW:**

- Darparu amgylchedd dysgu heb unrhyw fygythiad na braw.
- Lleihau a dileu, lle bynnag y bo'n bosib, achosion lle mae disgyblion yn teimlo ofn, wedi'u heithrio neu'n anhapus.
- Sefydlu ffordd o fynd i'r afael â bwlio, ac o roi cefnogaeth i ddisgyblion sydd wedi cael eu bwlio.
- Sicrhau bod y disgyblion a'r staff yn ymwybodol o'r polisi a'u bod yn bodloni eu rhwymedigaethau iddo.

**DIFFINIAD BWLIO**

Mae bwlio'n cynnwys un person yn cael ei ddominyddu gan un arall, neu grŵp o bobl eraill, yn fwriadol ac fel arfer mewn patrwm o ymddygiad yn hytrach nag un digwyddiad.

Gall bwlio ddigwydd drwy sawl math o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall fod yn:

a) GORFFOROL
Gall plentyn ddioddef rhywun yn ei bwnio, ei gicio, ei fwrw, yn poeri ato etc.

b) LLAFAR
Gall cam-drin geiriol fod yn rhywun yn galw enwau ar rywun arall. Gall gael ei gyfeirio at ryw, tarddiad ethnig, anabledd corfforol/cymdeithasol neu bersonoliaeth etc.

c) EITHRIO
Gall plentyn gael ei fwlio drwy gael ei eithrio rhag trafodaethau/gweithgareddau, â'r rhai y credir eu bod yn ffrindiau iddo.

ch) DIFROD I EIDDO NEU DDWYN
Efallai y bydd rhywun yn difrodi neu'n dwyn eiddo disgyblion. Gall y bwli ddefnyddio bygythiadau corfforol er mwyn i'r disgybl roi ei eiddo iddo.

Rhaid i ni gydnabod bod sawl plentyn yn profi bwlio ar un adeg neu'i gilydd yn ystod bywyd ysgol. Nid yw'r ffaith nad yw achosion yn dod i'r amlwg yn golygu nad ydynt yn digwydd. Rhaid i ni fod yn ymwybodol o arwyddion o fwlio a chymryd camau gweithredu a bod pawb yn gweld ein camau gweithredu pryd bynnag a ble bynnag y maent yn ymddangos.

**MEITHRIN AMGYLCHEDD GWRTH-FWLIO**

Mae Polisi Ymddygiad ein hysgol yn esbonio sut rydym yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn yr ysgol i feithrin amgylchedd lle mae disgyblion yn ymddwyn yn dda; lle mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros les emosiynol a chymdeithasol ei gilydd a chynnwys a chefnogi ei

gilydd. Ein nod yw meithrin amgylchedd lle nad yw bwlio'n dderbyniol gan unrhyw un yng nghymuned yr ysgol.

Defnyddir ein cwricwlwm i:

- Gynyddu ymwybyddiaeth o fwlio a'n polisi gwrth-fwlio.
- Cynyddu dealltwriaeth i ddioddefwyr a helpu i feithrin ethos gwrth-fwlio.
- Addysgu disgyblion sut i reoli eu perthnasoedd ag eraill mewn ffordd adeiladol.

Defnyddir amser cylch, chwarae rôl a straeon i ddangos yr hyn y gall disgyblion ei wneud i atal bwlio a meithrin amgylchedd gwrth-fwlio yn yr ysgol.

Ni fyddwn yn goddef bwlio ac rydym yn gwneud hyn yn glir yn yr wybodaeth rydym yn ei rhoi i ddisgyblion a rhieni pan fônt yn ymuno â'n hysgol.

Mae ein Cyngor Ysgol yn cynnig fforwm lle gellir trafod pryderon ynghylch bwlio'n rheolaidd.

Byddwn yn gofyn i ddisgyblion ble a phryd y ceir bwlio yn yr ysgol a byddwn yn goruchwylio hyn er mwyn ceisio dileu unrhyw ardaloedd anniogel y maent yn dweud wrthym amdanynt.

**STRATEGAETHAU YSGOL GYMRAEG PONTYBRENIN AM FYND I'R AFAEL Â BWLIO**

**STAFF**

Os byddwch yn gweld bwlio, beth gallwch ei wneud?
Y camau cyntaf:
Byddwch yn ddigyffro; chi sy'n rheoli'r sefyllfa.

- Gallai ymateb yn emosiynol ychwanegu at hwyl y bwli a rhoi rheolaeth o'r sefyllfa i'r bwli
- byddwch o ddifrif am y digwyddiad neu'r adroddiad
- cymerwch gamau gweithredu mor gyflym â phosib
- meddyliwch yn galed a ddylai eich cam gweithredu fod yn breifat neu'n gyhoeddus
- cysurwch y dioddefwr(wyr), peidiwch â gwneud iddynt deimlo'n annigonol nac yn ffôl
- cynigiwch gymorth, cyngor a chefnogaeth gadarn i'r dioddefwyr
- anogwch y bwli i weld barn y dioddefwr
- defnyddiwch yr amrywiaeth o gosbau a amlinellir yn ein Polisi Ymddygiad.
- esboniwch yn glir unrhyw gosb a pham y rhoddir y gosb.

Cynnwys eraill:
Byddwch yn ddigyffro; chi sy'n rheoli'r sefyllfa.

- dywedwch wrth y Pennaeth, y Dirprwy Bennaeth neu aelod o'r Uwch Dîm Rheoli. Bydd y Pennaeth yn cofnodi achosion o fwlio.
- dywedwch wrth gydweithwyr os tarddu'r digwyddiad o sefyllfa lle dylai pawb fod yn wyliadwrus e.e. toiledau.

Bydd y Pennaeth yn dweud wrth y ddwy set o rieni'n ddigyffro, yn glir ac yn gryno ac yn sicrhau'r ddwy set o rieni na fydd y digwyddiad yn parhau nac yn cael ei ddal yn erbyn rhywun.

Camau terfynol:
Sicrhewch nad yw'r digwyddiad yn parhau oherwydd eich bod yn eu hatgoffa amdano

- ceisiwch feddwl ymlaen llaw i osgoi bod y digwyddiad yn cael ei ailadrodd, os ydych yn dod o hyd i'r ysgogiad

Os oes rhaid i chi fynd i'r afael â bwlio, beth dylech chi ei osgoi?

- Peidiwch â bod yn or-amddiffynnol a gwrthod i'r dioddefwr helpu ei hun
- Peidiwch â thybio bod y bwli'n berson drwg; ceisiwch edrych yn wrthrychol ar yr ymddygiad gyda'r bwli
- Peidiwch â chadw'r digwyddiad yn gyfrinachol oherwydd eich bod wedi ymdrin â'r mater
- Peidiwch â cheisio cuddio'r digwyddiad rhag rhieni'r dioddefwr na'r bwli
- Peidiwch â ffonio'r rhieni heb gael cynllun adeiladol ar gyfer y naill ochr a'r llall

**PLANT**

Beth gallwch chi ei wneud os ydych yn dioddef bwlio?

Cofiwch mai eich distawrwydd yw arf gorau'r bwli!

- Dywedwch wrthych chi'ch hun nad ydych yn haeddu cael eich bwlio, a'i fod yn ANGHYWIR!
- Byddwch yn falch o'r person ydych chi. Mae'n dda i fod yn unigryw.
- Ceisiwch beidio â dangos eich bod wedi ypsetio (mae'n anodd ond mae bwli'n dwlu ar ofn rhywun), yna ewch yn syth at aelod o staff.
- Cadwch yn agos at grŵp o ffrindiau/bobl. Mwyaf y nifer, mwyaf diogel.
- Byddwch yn bendant - dywedwch wrth y bwli nad ydych yn hoffi ei ymddygiad. Cerddwch i ffwrdd yn hyderus. Ewch yn syth at aelod o staff.
- Mae gwrthwynebu'n gwneud pethau'n waeth. Siaradwch ag aelod o staff a'ch rhieni.
- Yn gyffredinol, mae'n well dweud wrth oedolyn rydych yn ymddiried ynddo'n syth. Byddwch yn cael cymorth ar unwaith.

Bydd athrawon yn eich trin o ddifrif a byddant yn mynd i'r afael â'r bwlis mewn ffordd a fydd yn dod â'r bwlio i ben ac ni fydd yn gwneud pethau'n waeth i chi.

**RHIENI**

Fel rhiant, beth gallwch chi ei wneud?

- Chwilio am ymddygiad anarferol yn eich plant. Er enghraifft, efallai'n sydyn na fydd am fynd i'r ysgol, yn teimlo’n sâl yn rheolaidd, neu nid yw'n cwblhau ei waith i'r safon arferol.
- Cymerwch rôl weithredol yn addysg eich plentyn. Gofynnwch sut aeth ei ddydd, â phwy mae wedi treulio amser, sut treuliwyd amser cinio ganddynt etc.
- Os ydych yn teimlo y gall eich plentyn fod yn ddioddefwr bwlio, dywedwch wrth eich ysgol AR UNWAITH. Ystyrir eich cwyn o ddifrif a bydd camau gweithredu priodol yn cael eu dilyn.
- Mae'n bwysig eich bod yn cynghori eich plentyn i beidio â gwrthwynebu. Gall wneud pethau'n waeth!
- Dywedwch wrth eich plentyn nad oes unrhyw beth yn bod arno. Nid ei fai ef ydyw ei fod yn cael ei fwlio.
- Sicrhewch fod eich plentyn yn gwybod polisi'r ysgol ynghylch bwlio, fel nad oes ofn arno i ofyn am gymorth. Anogwch blant i siarad â'u hathro dosbarth.

**FEL YSGOL**

Fel ysgol byddwn yn:

- Trefnu cymuned yr ysgol er mwyn lleihau cyfleoedd i fwlio e.e. darparu mwy o oruchwyliaeth yn ystod amserau problemus.
- Defnyddio unrhyw gyfle i drafod agweddau ar fwlio, a'r ffyrdd priodol i ymddwyn tuag at ei gilydd.

- Mynd i'r afael ag unrhyw gwynion yn gyflym, yn gadarn ac yn deg, gan gynnwys rhieni lle y bo'n bosib.
- Adolygu Polisi'r Ysgol a'i lwyddiant.
- Parhau i feddu ar strwythur disgyblaeth cadarn ond teg. Ychydig o reolau sydd gennym ac maent yn syml ac yn hawdd eu deall.
- Peidio â defnyddio deunyddiau na chyfarpar addysgu sy'n rhoi barn wael neu negyddol am grŵp oherwydd eu cefndir ethnig, rhyw etc.
- Annog disgyblion i drafod sut maent yn dod ymlaen gyda phobl eraill a llunio agweddau cadarnhaol at bobl eraill. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o gyfeillgarwch.
- Annog disgyblion i drin pawb â pharch.
- Byddwn yn trin bwlio fel trosedd ddifrifol ac yn cymryd pob cam gweithredu posib i'w ddileu o'n hysgol.

**GWERTHUSIAD**

Adolygir ein polisi bwlio'n rheolaidd gan gynnwys staff addysgu a chysylltiol. Ymgymerir ag adolygiad ffurfiol yn flynyddol.

**CASGLIAD**

Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill i'n hysgol e.e.

Polisi Presenoldeb: *Mae arfer da yn ein haddysgu a'n disgyblaeth hefyd yn debygol o fod yn arfer da wrth atal triwantiaeth.*

Polisi Cyfle Cyfartal gan gynnwys Polisi Cydraddoldeb Hil: Rydym o ddifrif am unrhyw fath o aflonyddu. *Rydym yn ei wneud yn glir i ddisgyblion bod arferion o'r fath yn annerbyniol ac ni fyddwn yn eu dioddef.*

Polisi Ymddygiad: *Mae hyn yn pwysleisio ein strategaethau ar gyfer hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.*

| Mabwysiadu'r Polisi |
|---|
| Dyddiad Adolygu gan y Corff Llywodraethu: 22/3/23 |
| Dyddiad cadarnhau a chymeradwyo gan y Corff Llywodraethu<br><br>Llawn: 22/3/23 |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: |